

# Rhan A - Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau

Etholiadau llywodraeth leol yng  
Nghymru a Lloegr: canllawiau i  
Swyddogion Canlyniadau

Cyhoeddwyd ym mis Hydref 2016 (diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2018).

Yn y canllawiau hyn, rydym yn defnyddio 'rhaid' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol penodol. Rydym yn defnyddio 'dylai' ar gyfer eitemau sydd yn arfer a argymhellir yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

## Cyfieithiadau a fformatau eraill

Mae ein canllawiau a'n hadnoddau ar gyfer yr etholiadau hyn hefyd ar gael yn Saesneg.

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: [cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk](mailto:cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk)

# Diweddariadau i'r ddogfen hon

<b>Diweddarwyd</b>	<b>Disgrifiad o'r newid</b>
Rhagfyr 2016	Diweddariad i adlewyrchu'r ffaith bod y Gorchymyn ymddygiad ar gyfer etholiadau maerol awdurdodau cyfunol bellach wedi'i osod gerbron Senedd y DU.
Ionawr 2017	Diweddarwyd er mwyn cadarnhau bod yn rhaid i bob cyngor cyfansoddol benodi swyddog o'r cyngor yn Swyddog Canlyniadau lleol ar gyfer etholiadau maerol awdurdodau cyfunol (Blwch o dan baragraff 3.3)
Gorffennaf 2018	Diweddarwyd er mwyn ystyried Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018

# Cynnwys

<b>1</b>	<b>Cyflwyniad i'r canllawiau hyn .....</b>	<b>1</b>
	Diben.....	1
	Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn .....	3
	Terminoleg.....	3
<b>2</b>	<b>Cyd-destun etholiadau llywodraeth leol .....</b>	<b>5</b>
	Natur yr etholiadau a ymleddir.....	5
	Maint .....	5
	Cofrestru etholwyr .....	6
<b>3</b>	<b>Rolau a chyfrifoldebau .....</b>	<b>8</b>
	Eich rôl a'ch cyfrifoldebau.....	9
	Eich sgiliau a'ch gwybodaeth .....	12
	Torri dyletswydd swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol.....	13
	Atodiad A - Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr.....	15

# 1 Cyflwyniad i'r canllawiau hyn

## Diben

1.1. Diben y canllawiau hyn yw cynorthwyo Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru a Lloegr gydag arfer a gweithdrefn gweinyddu etholiadau llywodraeth leol.

1.2. Cafodd y canllawiau eu datblygu drwy ymgynghori'n fanwl ag aelodau o Fwrdd Cydlynu a Chynghori Etholiadol y DU (ECAB), y Gweithgor Etholiadau, Cofrestru a Refferenda (ERRWG) a'r Gymdeithas Gweinyddwyr Etholiadol (AEA). Mae'n adlewyrchu'r hyn yr ydym ni, ECAB, ERRWG a'r AEA yn credu y dylai Swyddogion Canlyniadau ddisgwyl gan eu staff wrth baratoi ar gyfer etholiadau llywodraeth leol a chynnal yr etholiadau hynny.

1.3. Mae'r canllawiau hyn ar gyfer etholiadau prif ardaloedd ond maent hefyd yn cwmpasu gwaith perthnasol o gynllunio ar gyfer etholiadau cynghorau plwyf a chymuned, refferenda maerol ac etholiadau maerol, gan gynnwys etholiadau maerol awdurdod cyfunol, a'u cynnal. Tynnir sylw at wahaniaethau mewn blychau eglurol drwy gydol y canllawiau, ynghyd ag ystyriaethau penodol sy'n ymwneud ag etholiadau cyfunol<sup>i</sup>. Dylid ystyried cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at etholiad llywodraeth fel rhai ar gyfer etholiadau plwyf ac etholiadau maerol oni nodir yn wahanol. Dylid ystyried cyfeiriadau at etholiad maerol fel rhai ar gyfer etholiadau maerol awdurdod cyfunol oni nodir yn wahanol.

1.4. Nid yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu gweinyddu refferenda treth gyngor. Nid yw ychwaith yn cwmpasu gweinyddu refferenda cynllunio cymdogaeth lleol, ac eithrio i dynnu sylw at yr effaith ar Swyddogion Canlyniadau lle cyfunir pleidlais refferendwm o'r fath gyda phleidlais etholiad llywodraeth leol. Bydd y cynnwys sy'n ymwneud â refferenda cynllunio cymdogaeth lleol ond yn cwmpasu refferenda nad ydynt yn croesi ffiniau awdurdod lleol. Lle bydd refferendwm yn croesi ffiniau awdurdod lleol mae'r ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â chyfuno yn gymhleth ac rydym felly'n argymhell eich bod yn cysylltu â [thîm lleol y Comisiwn](#) cyn gynted â phosibl ar ôl darganfod y bydd refferendwm o'r fath yn digwydd yn eich ardal.

### **Etholiad maerol awdurdod cyfunol**

Os ydych yn Swyddog Canlyniadau lleol mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol dylech ddarllen y canllawiau hyn ar y cyd ag unrhyw ganllawiau neu gyfarwyddiadau ychwanegol a gyhoeddir gan Swyddog Canlyniadau'r

---

<sup>i</sup> Nid yw'r canllawiau hyn yn cwmpasu cyfuno ag unrhyw etholiadau eraill ac eithrio'r rhai a restrir.

Awdurdod Cyfunol (SCAC) fel rhan o'i rôl yn cydgysylltu'r gwaith o gynnal yr etholiad maerol yr awdurdod cyfunol yn ei ardal. Mae gan yr SCAC y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Canlyniadau Lleol sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn etholiad maerol yr awdurdod cyfunol, ac felly wrth weithredu fel Swyddog Canlyniadau Lleol rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath. Fodd bynnag, lle bydd y pleidleisiau hyn wedi'u cyfuno, nid yw'r pŵer i roi cyfarwyddiadau yn ymestyn i unrhyw etholiad arall nac elfennau cyfunol y bleidlais. Sut bynnag, dylech weithio'n agos gyda'r SCAC ac ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ganddo wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau i gyd a'u cynnal. Rydym wedi llunio [canllawiau cynllunio ar wahân ar gyfer SCACau](#) sydd ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan.

1.5. Lluniwyd y canllawiau hyn yn seiliedig ar y gofynion a nodir yn y ddeddfwriaeth ganlynol (fel y'i diwygiwyd) a dylid eu darllen yn unol â hi:

- Deddf Llywodraeth Leol 1972
- Deddfau Cynrychiolaeth y Bobl 1983, 1985 a 2000
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000
- Deddf Llywodraeth Leol 2000
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cymru a Lloegr) 2001
- Rheoliadau Cynrychiolaeth y Bobl (Cyfuno Etholiadau) (Cymru a Lloegr) 2004
- Rheolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru a Lloegr) 2006
- Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006
- Rheolau Etholiadau Lleol (Plwyfi a Chymunedau) (Cymru a Lloegr) 2006
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Etholiadau Maerol) (Cymru a Lloegr) 2007
- Deddf Pleidiau Gwleidyddol ac Etholiadau 2009
- Deddf Democratiaeth Leol, Datblygu Economaidd ac Adeiladu 2009
- Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012
- Deddf Cofrestru a Gweinyddu Etholiadau 2013
- Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017

1.6. Mae'r rhestr uchod ond yn cynnwys y ddeddfwriaeth sy'n darparu ar gyfer y meysydd y mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â hwy ac sydd mewn grym ar hyn o bryd.

1.7. Roedd deddfwriaeth diogelu data ddiwygiedig yn gymwys o 25 Mai 2018 ac mae'n gymwys i brosesu pob math o ddata personol. Mae gan Swyddogion Canlyniadau gyfrifoldeb personol dros sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data. Yn ogystal â'r diweddariadau i'r canllawiau hyn, cyhoeddodd y Comisiwn [adnodd](#) ym mis Chwefror 2018 er mwyn eich helpu i gyflawni eich rhwymedigaethau o dan Reoliad Diogelu Data Cyffredinol yr UE a Deddf Diogelu Data 2018, fel y maent yn ymwneud â'ch cyfrifoldebau gweinyddu etholiadau.

1.8. Mae'n ofynnol hefyd i chi ystyried y ddyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus a geir yn Adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 wrth

iddynt gyflawni eich dyletswyddau. Hefyd, mae'n ofynnol i Swyddogion Canlyniadau yng Nghymru ystyried Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau yng Nghymru gael eu darparu'n gyfartal yn Gymraeg ac yn Saesneg.

## Sut i ddefnyddio'r canllawiau hyn

1.9. Rhennir y canllawiau'n chwe maes:

Rhan A – Rôl a chyfrifoldebau'r Swyddog Canlyniadau (ar gael yn [Saesneg](#))

Rhan B – Cynllunio a threfnu (ar gael yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#))

Rhan C - Gweinyddu'r etholiad (ar gael yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#))

Rhan D – Pleidleisio absennol (ar gael yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#))

Rhan E – Dilysu a chyfrif y pleidleisiau (ar gael yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#))

Rhan F – Ar ôl datgan y canlyniadau (ar gael yn [Saesneg](#) ac yn [Gymraeg](#))

1.10. Mae pob un o'r rhannau hyn yn cwmpasu:

- yr hyn y mae'n ofynnol i chi ei wneud yn ôl y gyfraith ('rhaid')
- yr hyn y disgwylw'n y bydd angen i chi ei roi ar waith a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld er mwyn gallu bodloni ein hunain bod modd sicrhau canlyniadau allweddol safonau perfformiad y Comisiwn
- arfer a argymhellir er mwyn eich helpu i ddeall eich dyletswyddau a'u cyflawni

1.11. Ategir y canllawiau hyn gan adnoddau sydd ar gael drwy ddolenni a geir yn y canllawiau.

1.12. Os bydd gennych unrhyw gwestiwn am y canllawiau neu unrhyw fater arall yn ymwneud â gweinyddu etholiadau, byddwn ar gael i gynnig cymorth parhaus. Byddwn hefyd yn darparu gwasanaeth cynghori y tu allan i oriau er mwyn ymdrin ag ymholiadau gweinyddu etholiadau brys yn y cyfnod yn arwain at unrhyw etholiadau a drefnwyd ac yn syth wedyn. Rhoddir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth y tu allan i oriau y byddwn yn ei ddarparu drwy ein [Bwletin ar gyfer gweinyddwyr etholiadol](#).

## Terminoleg

1.13. Yn y canllawiau hyn, dylai'r term 'ward' gael ei ddarllen fel 'adran etholiadol' mewn etholiadau ar gyfer cynghorau unedol, sir a bwrdeistref sirol.



Ymhob achos lle nad os ward mewn plwyf neu gymuned, dylid ystyried 'ward' fel 'plwyf' neu 'gymuned' yn y drefn honno.

### Refferenda maerol ac etholiadau maerol awdurdodau lleol

Mewn etholiad neu refferendwm maerol awdurdod lleol yr ardal etholiadol yw ardal gyfan yr awdurdod lleol.

### **Etholiad maerol awdurdod cyfunol**

Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio ardal etholiadol mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol fel ardal gyfan yr awdurdod cyfunol. Fodd bynnag, caiff etholiadau maerol awdurdod cyfunol eu gweinyddu'n lleol ar sail cyngor dosbarth.<sup>1</sup>

### **Refferenda cynllunio cymdogaeth**

Mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth, yr ardal etholiadol yw ardal y refferendwm<sup>2</sup>. Fan lleiaf, bydd hyn yr Ardal Cymdogaeth, ond gellir ei hymestyn i gynnwys ardaloedd eraill sydd â diddordeb yng nghanlyniad y refferendwm. Yn y refferenda hyn felly, dylid darllen cyfeiriadau yn y canllawiau hyn at 'ardal etholiadol' fel 'ardal y refferendwm'.



## 2 Cyd-destun etholiadau llywodraeth leol

2.1 Daw etholiad lleol â'i heriau penodol ei hun yn ei sgil ac mae'n debygol y bydd eich gwaith i gynnal etholiad yn drefnus yn cael cryn sylw - ymhlith pleidleiswyr, ymgeiswyr a phleidiau gwleidyddol, a'r cyfryngau, gan gynnwys drwy'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r bennod hon yn ceisio amlygu rhai o'r agweddau penodol ar gyd-destun sy'n berthnasol i etholiad lleol. Dylech sicrhau eu bod wrth wraidd pob agwedd ar eich gwaith cynllunio.

### Natur yr etholiadau a ymleddir

2.2 Gallai'r dirwedd wleidyddol newidiol olygu, hyd yn oed mewn manau lle y bu mwyafrif mawr yn draddodiadol, efallai na fydd hyn yn wir mwyach, gan olygu y gallai'r ffocws a'r amgylchiadau fod yn wahanol i unrhyw beth a brofwyd yn eich ardal o'r blaen.

2.3 Efallai y bydd nifer sylweddol o bleidiau gwleidyddol newydd neu lai profiadol, ymgeiswyr ac asiantiaid sy'n llai cyfarwydd ag arferion a phrosesau'r mathau gwahanol o etholiad ac y bydd angen eich cymorth arnynt i allu cymryd rhan yn effeithiol.

2.4 O ystyried pa mor agos ac anodd y gallai'r etholiad fod, dylech fod yn barod i'w huniondeb fod yn destun craffu. Bydd honiadau ac achosion o dwyll etholiadol nid yn unig yn cael effaith negyddol ar hyder etholwyr ac ymgyrchwyr, ond gallant hefyd gael effaith sylweddol ar eich gallu i reoli'r broses etholiadol yn effeithiol. Felly, mae'n hanfodol eich bod yn gweithredu cynlluniau manwl a chadarn ar gyfer monitro a chynnal uniondeb yr etholiad yn eich ardal. Dylech weithio'n agos gyda'r heddlu lleol, gan sicrhau bod gennyhau linellau cyfathrebu da ar waith ar gyfer atgyfeirio unrhyw honiadau.

### Maint

2.5 Bydd faint o waith paratoi y byddwch yn gallu ei wneud cyn etholiad yn amrywio yn dibynnu ar amryw o ffactorau, gan gynnwys p'un a yw'n etholiad a drefnwyd neu'n isetholiad, faint o ardal yr awdurdod lleol fydd yn cynnal etholiadau a faint o etholiadau cyfunol fydd yn cael eu cynnal, os o gwbl.

2.6 Er enghraifft, yn achos cyfuno pleidlais mewn etholiad awdurdod unedol â phleidlais mewn etholiaeth maerol lle mae dau neu fwy o ymgeiswyr, byddai dwy system etholiadol wahanol, sy'n ymgorffori dwy ffordd o pleidleisio, gyda dau bapur pleidleisio gwahanol. Bydd yn hanfodol, yn yr achos hwnnw, rhoi gwybodaeth glir a phenodol i bleidleiswyr am sut i fwrw eu pleidlais er mwyn lleihau unrhyw ddrwschwch. Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, lle bydd yr ardal etholiadol yn cynnwys nifer o ardaloedd awdurdod lleol, er mwyn lleihau dryswch ymhlith pleidleiswyr ac i sicrhau y caiff pleidleiswyr wasanaeth o

ansawdd uchel yn gyson waeth ble maent yn byw, bydd angen i chi weithio'n agos gyda'r SCAC a'r Swyddogion Canlyniadau lleol eraill.

2.7 Bydd angen i sawl agwedd ar gynllunio'r etholiad adlewyrchu tybiaethau o ran y niferoedd tebygol a wnaiff bleidleisio. Bydd gwneud y fath dybiaethau ar gam cynnar o'r gwaith cynllunio yn allweddol gan mai prin y gellir newid cynlluniau ar gam hwyrach yn y broses. Mae heriau bob amser yn gysylltiedig â datblygu tybiaethau cynllunio o'r fath. Yn aml, bydd yn anodd rhagfynegi, cyn cyfnod yr etholiad, y lefelau tebygol o ymgysylltu mewn pleidlais benodol. O ystyried y posibilrwydd y gwelir cryn dipyn o ddiddordeb ac ymgysylltu, na fydd rhai ohonynt yn hysbys tan ddiwedd y cyfnod pleidleisio, mae angen i'r posibilrwydd y gwelir nifer fawr yn pleidleisio gael ei adlewyrchu ym mhob agwedd ar y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad.

2.8 Er enghraifft, byddai cynnydd yn y nifer a bleidleisiodd yn golygu bod mwy o bleidleiswyr mewn gorsafoedd pleidleisio, ac mae'n hanfodol bod darpariaeth briodol ar gyfer hynny, gyda digon o orsafoedd a staff i ymdrin â'r nifer o etholwyr a ddynodir ar eu cyfer. Er bod y ddeddfwriaeth yn caniatáu i unrhyw bleidleisiwr sydd mewn ciw ar gyfer ei orsaf pleidleisio am 10pm fwrw pleidlais, mae dal angen sicrhau nad yw pleidleiswyr yn wynebu oedi gormodol cyn pleidleisio a'u bod yn derbyn gwasanaeth o safon drwy gydol y diwrnod pleidleisio.

2.9 Wrth i'r pleidlais nesáu, bydd y cyd-destun yn parhau i newid wrth i'r ymgyrchoedd ddatblygu. Bydd angen i chi fod yn barod i ymateb i ddiwyddiadau a allai gael effaith ar gynnal y pleidlais yn effeithiol, a fydd yn cynnwys cael cynlluniau wrth gefn cadarn i'w rhoi ar waith os bydd angen.

2.10 Mae'n debygol y bydd sylw gan y cyfryngau ar y cyfrif a datgan y canlyniadau a bydd yn bwysig rheoli disgwyliadau, nid yn unig o ran y cyfryngau ond hefyd o ran pawb sydd â diddordeb yn y canlyniadau, drwy ymgynghori ar eich dull bwriadedig o weithredu ac wedyn nodi'n glir yr hyn rydych yn bwriadu ei wneud ac erbyn pryd.

## Cofrestru etholwyr

2.11 Mae'r ffocws ar y niferoedd sydd wedi cofrestru ac sydd heb gofrestru mor amlwg ag erioed, a disgwylir i hyn barhau.

2.12 Mae cofrestru ar-lein yn enwedig yn rhoi mwy o gyfle i chi ymgysylltu â thrigolion lleol yn y broses ddemocrataidd a rhoi hwb i'r lefelau cofrestru ymhlith grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol. Mae etholiadau yn sbardun ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn lleol a gallai cyfleoedd i weithio gyda phartneriaid lleol a all gyrraedd pleidleiswyr mewn grwpiau nas cynrychiolir yn ddigonol yn eich ardal fod yn rhan werthfawr o'ch gwaith ymgysylltu lleol a dylid manteisio ar hynny.

2.13 Dylech baratoi ar gyfer y posibilrwydd y bydd nifer fawr o geisiadau cofrestru yn agos at y dyddiad cau ar gyfer yr etholiad a chynnwys hynny yn eich cynlluniau, gan adlewyrchu ar y gwersi a ddysgwyd o brofiad pleidleisiau diweddar. Hyd yn oed pan nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol, bydd

gan geisiadau o'r fath a chwestiynau cysylltiedig gan drigolion am eu statws  
cofrestru oblygiadau o ran gweinyddu'r bleidlais a dylai eich cynlluniau sicrhau  
eich bod yn gallu ymateb yn effeithiol.

## 3 Rolau a chyfrifoldebau

3.1 Mae'n ofynnol i bob cyngor sir, dosbarth, unedol a metropolitaidd yn Lloegr benodi swyddog o'r cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'w awdurdod lleol<sup>3</sup>. Yn ymarferol, mewn etholiadau cyngor sir yn Lloegr, bydd rhai Swyddogion Canlyniadau yn penodi dirprwy ymhob cyngor dosbarth yn ardal y sir i gyflawni eu swyddogaethau. Y dirprwy Swyddog Canlyniadau a benodir fel arfer fydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau llywodraeth leol ar gyfer y dosbarth penodol hwnnw.

3.2 Y Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr bwrdeistrefi yn Llundain yw swyddog priodol y fwrdeistref<sup>4</sup>.

3.3 Yng Nghymru, mae'n ofynnol i bob cyngor sir neu fwrdeistref sirol benodi swyddog o'r cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr i'w awdurdod lleol.<sup>5</sup>



### Etholiadau cynghorau plwyf a chymuned

Rhaid i bob cyngor dosbarth yn Lloegr a phob cyngor sir a bwrdeistref sirol yng Nghymru benodi swyddog o'r cyngor i fod yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr plwyf neu gymuned o fewn y dosbarth neu sir/bwrdeistref sirol.<sup>6</sup> Gall hyn fod yr un unigolyn â'r Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardal, ond nid oes yn rhaid iddo fod.

### Etholiad maerol awdurdod lleol

Yr unigolyn a benodir fel y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardal fydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer unrhyw etholiadau maerol yn yr awdurdod lleol (h.y. y person a benodir fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr prif ardal sydd hefyd yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol maer)<sup>7</sup>.

### Etholiad maerol awdurdod cyfunol

Mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol, y person a benodir yn Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardal fydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiad maerol awdurdod cyfunol. Lle mae cyngor dosbarth a chyngor sir yn gynghorau cyfansoddol ar gyfer yr un ardal o awdurdod cyfunol, dim ond y cyngor dosbarth fydd yn gorfod penodol swyddog o'r cyngor yn Swyddog Canlyniadau lleol<sup>8</sup>.

Rhaid i'r awdurdod cyfunol benodi un o'i swyddogion, neu un o swyddogion cyngor cyfansoddol, i fod yn Swyddog Canlyniadau yr Awdurdod Cyfunol (SCAC) ar gyfer yr etholiad<sup>9</sup>. Yr SCAC sy'n gyfrifol am drefn cynnal etholiad maerol awdurdod cyfunol, ac am gydgyssylltu gwaith Swyddogion Canlyniadau yn yr awdurdod cyfunol. Bydd gan yr SCAC gyfrifoldebau penodol ar gyfer yr

etholiad, gan gynnwys gweinyddu'r broses enwebu a chyfrifo a datgan y canlyniad. Rydym wedi datblygu canllawiau ar wahân i helpu SCACau:

- [Canllawiau cynllunio SCAC](#)
- [Canllawiau SCAC – cyflawni prosesau allweddol](#)

### Refferenda Maerol

Mewn refferendwm maerol yn Lloegr, cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrif sy'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardal (h.y. y person a benodir fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr prif ardal sydd hefyd yn Swyddog Cyfrif ar gyfer refferenda maerol) yw'r refferendwm<sup>10</sup>.

### Refferenda cynllunio cymdogaeth

Mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth yn Lloegr, cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrif sy'n Swyddog Canlyniadau ar gyfer etholiadau prif ardal ar gyfer yr awdurdod hwnnw (h.y. y person a benodir fel Swyddog Canlyniadau ar gyfer ethol cynghorwyr prif ardal sydd hefyd yn Swyddog Cyfrif ar gyfer y refferendwm) yw'r refferendwm<sup>11</sup>. Nid felly y mae ar gyfer Dinas Llundain, fodd bynnag, lle mai cyfrifoldeb y Swyddog Cyfrif, a benodir ar gyfer y diben hwnnw gan y Cyngor Cyffredin, yw'r refferendwm<sup>12</sup>.

Lle bydd refferendwm cynllunio cymdogaeth yn croesi ffiniau awdurdod lleol, y Swyddog Cyfrif ar gyfer pob awdurdod a gwmpesir gan ardal y refferendwm sy'n gyfrifol am y rhan o ardal y refferendwm sy'n berthnasol i ardal awdurdod lleol y swyddog hwnnw<sup>13</sup>.

Yn yr achos hwn, bydd yna Brif Swyddog Cyfrif â phŵer cyfarwyddo dros Swyddogion Cyfrif. Bydd y Prif Swyddog Cyfrif yn<sup>14</sup>:

- unigolyn a benodir gan yr awdurdod lleol sy'n cynnwys y nifer fwyaf o etholwyr llywodraeth leol cofrestredig yn ardal y refferendwm, neu
- unigolyn a benodir gan un o'r awdurdod lleol eraill fel y cytunir gan y ddau awdurdod neu'r awdurdodau i gyd

## Eich rôl a'ch cyfrifoldebau

3.4 Fel Swyddog Canlyniadau, rydych yn chwarae rhan ganolog yn y broses ddemocrataidd. Eich rôl yw sicrhau y caiff yr etholiad ei weinyddu'n effeithiol ac, o ganlyniad, y bydd profiad pleidleiswyr a'r rhai sy'n sefyll etholiad yn un cadarnhaol. Ar gam cynnar, dylech amlinellu'r hyn rydych am ei gyflawni a sut beth fyddai llwyddiant i chi.

3.5 Fel Swyddog Canlyniadau awdurdod lleol, chi yn bersonol sy'n gyfrifol am gynnal yr etholiad llywodraeth leol, gan gynnwys:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad
- gweinyddu'r broses enwebu
- argraffu papurau pleidleisio
- cyhoeddi'r hysbysiad pleidlais, datganiad ynghylch y personau a enwebwyd, a hysbysiad lleoliad gorsafodd pleidleisio
- darparu gorsafodd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- rheoli'r broses pleidleisio drwy'r post
- dilysu a chyfrif y pleidleisiau
- datgan y canlyniad

### **Etholiad maerol awdurdod cyfunol**

Fel Swyddog Canlyniadau lleol ar gyfer yr etholiad maerol awdurdod cyfunol chi sy'n gyfrifol yn bersonol am weinyddu'r etholiad yn eich ardal awdurdod lleol, gan gynnwys:

- cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau a gyhoeddir gan yr SCAC
- darparu gorsafodd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cyhoeddi'r hysbysiad pleidlais a'r hysbysiad lleoliad gorsafodd pleidleisio
- argraffu'r papurau pleidleisio (oni fydd yr SCAC wedi rhoi cyfarwyddyd y bydd ef yn gyfrifol am hyn)
- rheoli'r broses pleidleisio drwy'r post
- dilysu'r papurau pleidleisio a darparu gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y datganiad dilysu i'r SCAC
- cyfrif y pleidleisiau ar gyfer ardal eich awdurdod lleol
- trosglwyddo'r cyfansymiau lleol i'r SCAC
- datgan y cyfansymiau lleol ar gyfer eich ardal unwaith y bydd yr SCAC wedi rhoi caniatâd i chi wneud hynny

Mae'r SCAC yn bersonol gyfrifol am y canlynol:

- cyhoeddi'r hysbysiad etholiad
- gweinyddu'r broses enwebu
- cyhoeddi'r datganiad ynghylch y personau a enwebwyd
- sicrhau bod ymgeiswyr a'u hasiantiaid yn cydymffurfio â'r rheolau hyn o ran cynnwys eu cyfeiriadau etholiadol
- paratoi a dosbarthu llyfryn i bob pleidleisiwr yn cynnwys cyfeiriadau etholiadol ymgeiswyr anerchiadau etholiadol ymgeiswyr
- coladu nifer y pleidleisiau a roddwyd i bob ymgeisydd a chyfrifo'r canlyniad
- datgan y canlyniad

Efallai y bydd yr SCAC hefyd yn gyfrifol am argraffu papurau pleidleisio maerol awdurdod cyfunol drwy gyhoeddi cyfarwyddyd i'r perwyl hwn.<sup>15</sup>

Mae gan yr SCAC y pŵer i roi cyfarwyddiadau cyffredinol neu benodol i Swyddogion Canlyniadau lleol sy'n ymwneud â chyflawni eu swyddogaethau yn yr etholiad awdurdod cyfunol, gan gynnwys cyfarwyddiadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Swyddogion Canlyniadau gymryd camau penodol i baratoi neu roi unrhyw wybodaeth sydd ganddynt neu y mae ganddynt hawl i'w chael a chyfarwyddiadau y caiff y pleidleisiau eu cyfrif mewn lleoliad canolog.<sup>16</sup> Bydd yn ofynnol i chi gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd i chi<sup>17</sup>.

Lle bydd y pleidleisiau wedi'u cyfuno, nid yw'r pŵer hwn i roi cyfarwyddiadau yn ymestyn i unrhyw etholiadau(au) arall(eraill) nac elfennau cyfunol y bleidlais. Sut bynnag, dylech weithio'n agos gyda Swyddogion Canlyniadau eraill yn ardal yr awdurdod cyfunol, yn ogystal â'r SCAC, ac ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan yr SCAC wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau i gyd a'u cynnal.

Rydym wedi llunio [canllawiau cynllunio ar wahân ar gyfer SCACau](#).

3.6 Lle bydd etholiad llywodraeth leol wedi'i gyfuno â phleidlais yn ystod digwyddiad etholiadol ychwanegol, bydd un Swyddog Canlyniadau neu Swyddog Cyfrif yn gyfrifol am elfenau cyfunol y bleidlais, gan gynnwys<sup>18</sup>:

- darparu gorsafoedd pleidleisio
- penodi Swyddogion Llywyddu a Chlercod Pleidleisio
- cyhoeddi'r hysbysiad lleoliad gorsafoedd pleidleisio
- cyfarpar gorsafoedd pleidleisio
- hysbysiad gofynion cyfrinachedd gorsafoedd pleidleisio
- llofnodi tystysgrifau cyflogaeth ar gyfer staff gorsafoedd pleidleisio sy'n caniatáu iddynt bleidleisio yn yr orsaf bleidleisio y maent yn gweithio ynddi, yn hytrach na'r un a ddyrannwyd ar eu cyfer
- yr awdurdod i orchymyn bod pobl yn gadael gorsafoedd pleidleisio
- dilysu pob papur pleidleisio
- lle penderfynwyd anfon pleidleisiau post gyda'i gilydd:
  - y rhestr rhif cyfatebol
  - anfon pleidleisiau post gan gynnwys creu copi o'r rhestr o bleidleiswyr post a'r rhestr o ddirprwyon sy'n pleidleisio drwy'r post a'i nodi pan y'i hanfonir
  - agor amlenni pleidleisiau post gan gynnwys nodi'r datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd ar y rhestrau a chadarnhau'r manylion adnabod personol ar y datganiadau pleidleisiau post a ddychwelwyd

### **Etholiad maerol awdurdod cyfunol**

Lle caiff y bleidlais mewn etholiad maerol awdurdod cyfunol ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol arall, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn ymgymryd â swyddogaethau'r Swyddog Canlyniadau lleol yn yr etholiad maerol awdurdod cyfunol ar gyfer y rhan o'r ardal etholiadol sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol<sup>19</sup>.

### **Refferenda cynllunio cymdogaeth**



Lle caiff y bleidlais mewn refferendwm cynllunio cymdogaeth ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn ymgymryd â swyddogaethau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm ar gyfer y rhan o'r refferendwm sydd o fewn ardal yr awdurdod lleol<sup>20</sup>.

### Refferenda Maerol

Lle caiff y bleidlais mewn refferendwm maerol ei chyfuno â'r bleidlais mewn etholiad llywodraeth leol, bydd y Swyddog Canlyniadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol yn ymgymryd â swyddogaethau'r Swyddog Cyfrif yn y refferendwm<sup>21</sup>.

3.7 Mae eich dyletswyddau fel Swyddog Canlyniadau yn rhai ar wahân i'ch dyletswyddau fel swyddog llywodraeth leol. Fel Swyddog Canlyniadau nid ydych yn gyfrifol i'r cyngor ond rydych yn uniongyrchol atebol i'r llysoedd fel deiliad swydd statudol annibynnol.

3.8 Er y gallwch benodi un unigolyn neu fwy i gyflawni unrhyw un neu bob un o'ch swyddogaethau, ni allwch ddirprwyo'ch cyfrifoldeb personol am gynnal yr etholiad<sup>22</sup>. Ceir rhagor o wybodaeth am benodi dirprwyon yn [Rhan B – Cynllunio a threfnu](#).

## Eich sgiliau a'ch gwybodaeth

3.9 Dylech feddu ar wybodaeth ymarferol am y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu trefn cynnal yr etholiad. Felly, yn ogystal â dealltwriaeth glir o'ch swyddogaethau statudol, dylai fod gennych drosolwg o'r hyn y mae'r ddeddfwriaeth yn ei gynnwys a dealltwriaeth o'r ffordd mae'n effeithio ar y broses o weinyddu'r etholiad, fel eich bod yn gallu adolygu'r broses gyfan, ei chwestiynu lle bo angen a sicrhau ei hansawdd.

3.10 Mae cyfrifoldebau rheoli ynghlwm wrth eich rôl. Er enghraifft, dylech wneud y canlynol:

- mynnu cael y staff a'r adnoddau sydd eu hangen i gynnal yr etholiad yn drefnus
- sicrhau'r cymorth, y sgiliau a'r arbenigedd angenrheidiol o bob rhan o'ch awdurdod lleol eich hun
- goruchwyllo'r broses o gynllunio, rheoli prosiect a rheoli risg yr etholiad ac ymgorffori unrhyw wersi a ddysgwyd o bleidleisiau blaenorol
- nodi a goruchwyllo unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen er mwyn lliniaru unrhyw faterion sy'n codi
- sicrhau bod staff yn cael yr hyfforddiant priodol i gyflawni eu priod rolau
- cefnogi'r staff sy'n gweinyddu'r etholiad a goruchwyllo eu gwaith yn briodol
- cyfarwyddo staff, monitro cynnydd a chael adborth rheolaidd ar weithgareddau
- os nad chi yw'r Swyddog Cofrestru Etholiadol hefyd, cynnal cydberthynas waith effeithiol â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol



- cynnal cyberthynas waith effeithiol â'ch Pwynt Cyswllt Unigol yn yr heddlu
- sicrhau bod cyfrifon etholiadau yn cael eu cwblhau'n amserol

### Etholiad maerol awdurdod cyfunol

Os nad chi yw'r SCAC hefyd, bydd angen i chi gynnal cyberthynas waith effeithiol â'r Swyddog Cofrestru Etholiadol.

## Torri dyletswydd swyddogol a'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol

3.11 Fel Swyddog Canlyniadau, rydych yn ddarostyngedig i ddarpariaethau tordyletswydd swyddogol. Mae hyn yn golygu, os byddwch chi neu'ch dirprwyon penodedig, heb achos rhesymol, yn euog o unrhyw weithred neu anwaith sy'n torri dyletswydd swyddogol byddwch chi (a/neu eich dirprwyon) yn atebol i dalu dirwy anghyfyngedig ar ôl colffarn ddiannod<sup>23</sup>.

3.12 Mae gennych y pŵer i gymryd y cyfryw gamau ag y credwch sy'n briodol i unioni gweithredoedd neu anweithredoedd sy'n codi mewn cysylltiad ag unrhyw un o swyddogaethau'r etholiad ac nad ydynt yn unol â'r rheolau<sup>24</sup>.

3.13 Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i chi gywiro gwallau gweithdrefnol a wneir gennych chi, fel Swyddog Cyfrif, Swyddog Cofrestru Etholiadol, Swyddog Llywyddu (neu ddirprwyon unrhyw un o'r rhain) neu unigolyn sy'n darparu nwyddau neu wasanaethau i chi/nhw<sup>25</sup>.

3.14 Pan fyddwch yn datrys gweithred neu anwaith yn llawn gan ddefnyddio eich pŵer i gywiro gwall gweithdrefnol, ni fyddwch yn euog o dorri dyletswydd swyddogol<sup>26</sup>. Dylech gofio nad yw'r pŵer i gywiro gwallau gweithdrefnol yn eich galluogi i ailgyfrif y pleidleisiau ar ôl i'r canlyniad gael ei gyhoeddi<sup>27</sup>.

3.15 Gan eich bod yn bersonol gyfrifol am gynnal yr etholiad dylech sicrhau bod gennych yswiriant a'i fod yn gyfredol. Dylech fod yn barod i ddangos prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau cadarn os bydd yr etholiad yn cael ei herio ac y gwneir hawliad yn eich erbyn. Efallai y bydd y tîm yn eich awdurdod lleol sy'n ymdrin ag yswiriant yn gallu helpu i bennu pa yswiriant sydd eisoes wedi'i drefnu ac ar gael, a rhoi cyngor ar b'un a ddylid ei ymestyn.

## 4 Safonau perfformiad

4.1 Mae'r Comisiwn Etholiadol yn pennu safonau ac yn monitro ac yn adrodd ar berfformiad Swyddogion Canlyniadau<sup>28</sup>. Gellir gweld y safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau yn [Atodiad A – Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau](#).

4.2 Mae'r fframwaith yn seiliedig ar y canlyniadau allweddol o safbwynt pleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad, ac yn arbennig p'un a yw Swyddogion Canlyniadau yn cymryd y camau angenrheidiol i gyflawni'r canlyniadau canlynol:

- Gall pobl fwrw eu pleidlais yn hawdd ac maent yn gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd.
- Mae'n hawdd i bobl sydd am sefyll etholiad gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli.

4.3 Mae [rhannau B - F](#) o'r canllawiau yn cynnwys yr hyn y disgwyliwn y bydd angen i Swyddogion Canlyniadau fod wedi'i roi ar waith, a'r hyn y byddem yn disgwyl ei weld i allu bodloni ein hunain y gall prif ganlyniadau'r safonau gael eu cyflawni.

# Atodiad A - Safonau perfformiad ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ym Mhrydain Fawr

## Safon perfformiad 1: Pleidleiswyr

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl i fwrw eu pleidlais yn hawdd a gwybod y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Pleidleiswyr yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, mewn fformat hygyrch ac mewn da bryd i fwrw eu pleidlais	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn</li> <li>• Gwerthuso'r gwaith o gynllunio ar gyfer etholiadau blaenorol a'u cynnal a nodi'r gwersi a ddysgwyd, gan ddiweddarau cynlluniau fel y bo angen</li> <li>• Rhoi trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gyflawni yn unol â'r fanyleb</li> <li>• Sicrhau bod prosesau cadarn ar waith ar gyfer sicrhau nad oes unrhyw wallau ar ddeunyddiau</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd</li> <li>• Dogfennaeth gynllunio sy'n adlewyrchu'r gwersi a ddysgwyd</li> <li>• Trefniadau ar waith i reoli contractwyr a chyflenwyr</li> <li>• Prosesau ar gyfer prawfddarllen deunyddiau pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio a hysbysiad etholiad</li> <li>• Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir cardiau pleidleisio, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny</li> <li>• Gwybodaeth pleidleisio ar gael yn</li> </ul>

	<p>pleidleiswyr, hysbysiad pleidleisio na hysbysiad etholiad</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn cardiau pleidleisio cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth</li> <li>• Sicrhau bod gwybodaeth am bleidleisio, gan gynnwys yr hysbysiad etholiad a'r hysbysiad pleidleisio, ar gael yn hawdd i bleidleiswyr, megis ar wefan yr awdurdod lleol</li> </ul>	<p>hawdd ar wefan yr awdurdod lleol</p>
<p>Pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod anghenion mynediad yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer gorsafoedd pleidleisio a'u sefydlu</li> <li>• Penderfynu ar y ffordd y pennir etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio er mwyn sicrhau bod gorsafoedd pleidleisio yn cael eu staffio'n gywir fel bod pleidleiswyr yn derbyn gwasanaeth o safon, gan ystyried y ffactorau a nodir yng nghanllawiau'r Comisiwn</li> <li>• Sicrhau bod staff gorsafoedd pleidleisio wedi'u hyfforddi i sefydlu gorsafoedd pleidleisio mewn ffordd</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Asesu anghenion mynediad, gan nodi unrhyw broblemau a chamau gweithredu i'w datrys</li> <li>• Y ffordd yr eir ati i bennu etholwyr a staff i orsafoedd pleidleisio</li> <li>• Canllawiau/hyfforddiant i staff gorsafoedd pleidleisio</li> <li>• Gwybodaeth am y ffordd y dosberthir pecynnau pleidleisio drwy'r post, gan gynnwys amcangyfrif pryd y gwneir hynny</li> </ul>

	<p>sy'n ystyried anghenion pleidleiswyr</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod pleidleiswyr yn derbyn pecynnau pleidleisio drwy'r post cyn gynted â phosibl fel bod pleidleiswyr yn cael cymaint o amser â phosibl i weithredu ar y wybodaeth</li> </ul>	
<p>Gall pleidleiswyr fod yn hyderus y caiff eu pleidlais ei chyfrif yn y ffordd a fwriadwyd</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post</li> <li>• Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath</li> <li>• Cadw papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel drwy'r amser</li> <li>• Rhoi adnoddau ar waith i sicrhau bod y gwaith dilysu a chyfrif yn amserol</li> <li>• Sicrhau bod y canlyniadau yn cael eu cyfleu i bleidleiswyr mewn ffordd glir ac amserol</li> <li>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Trefniadau i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer anfon, derbyn ac agor pecynnau pleidleisio drwy'r post</li> <li>• Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb</li> <li>• Trefniadau i storio papurau pleidleisio a phecynnau pleidleisio drwy'r post yn ddiogel</li> <li>• Gwybodaeth am sut y caiff y gwaith dilysu a chyfrif ei drefnu a'i reoli, gan gynnwys y broses a ddilynwyd gennych i ddod i'ch penderfyniad</li> <li>• Trefniadau ar gyfer cyfleu canlyniadau i bleidleiswyr</li> <li>• Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif</li> </ul>

## Safon perfformiad 2: Y sawl sydd am sefyll etholiad

Sicrhau bod y gwaith o gynllunio ar gyfer yr etholiad a'i gynnal yn galluogi pobl sydd am sefyll etholiad i gael gwybod sut i wneud hynny, beth yw'r rheolau, a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud i gydymffurfio â'r rheolau, a gallant fod yn hyderus yn y ffordd y caiff y broses a'r canlyniad eu rheoli

Canlyniad	Beth sydd angen i'r Swyddog Canlyniadau ei wneud i gyflawni hyn	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Mae'r sawl sydd am sefyll etholiad yn cael yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud hynny	<ul style="list-style-type: none"><li>• Sicrhau bod gwybodaeth am y broses etholiadol a gwariant ar gael yn hawdd i ymgeiswyr ac asiantiaid, gan gynnwys drwy ddarparu sesiynau briffio a sicrhau eu bod yn cael canllawiau ysgrifenedig</li><li>• Sicrhau bod ymgeiswyr yn cael y cyfle i'w papurau enwebu gael eu gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Canllawiau ysgrifenedig yn cael eu rhoi i ymgeiswyr</li><li>• Dyddiad(au) sesiynau briffio ac adnoddau briffio</li><li>• Trefniadau ar waith i ymgeiswyr gael eu papurau enwebu wedi'u gwirio'n anffurfiol cyn eu cyflwyno'n ffurfiol</li></ul>

<p>Gall ymgeiswyr fod yn hyderus y caiff y broses ei rheoli'n dda, a chael hyder yn y canlyniadau</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Sicrhau bod y rhai sydd â'r hawl i fynd i sesiynau agor pleidleisiau post yn gallu dilyn yr hyn sy'n digwydd, ble a phryd</li> <li>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn dryloyw, gyda phob rhan o'r broses dilysu a chyfrif yn digwydd o flaen pawb sydd â'r hawl i fod yno, gyda gwybodaeth yn cael ei rhoi iddynt ar y prosesau i'w dilyn</li> <li>• Sicrhau bod prosesau cyfrif yn cael eu dylunio a'u rheoli i sicrhau canlyniad cywir, gyda llwybr archwilio clir</li> <li>• Sicrhau bod prosesau ar waith i nodi unrhyw batrymau gweithgarwch a allai ddynodi problemau posibl o ran uniondeb, gan gynnwys pa gamau y dylid eu cymryd i ymdrin ag unrhyw broblemau o'r fath</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynllun o sesiynau agor pleidleisiau post</li> <li>• Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol mewn sesiynau agor pleidleisiau post</li> <li>• Cynllun y cyfrif</li> <li>• Gwybodaeth yn cael ei rhoi i'r sawl sy'n bresennol yn y cyfrif</li> <li>• Trefniadau ar waith i rannu hynt y cyfrif</li> <li>• Trefniadau ar waith i gynnal llwybr archwilio clir ar gyfer y prosesau cyfrif</li> <li>• Prosesau i ymdrin â phroblemau o ran uniondeb</li> </ul>

# Safon perfformiad ar gyfer deiliaid swydd statudol sydd â phŵer cyfarwyddo

## Safon perfformiad 3: Cyd-drefnu a rheoli'r etholiad

Cyd-drefnu'r gwaith cynllunio ar gyfer etholiad a chynnal etholiad er mwyn sicrhau profiad cyson o ansawdd uchel i bleidleiswyr a'r rhai sydd am sefyll etholiad

Canlyniad	Beth sydd angen i'r deiliad swydd statudol ei wneud i gyflawni'r canlyniad	Beth fydd yn dangos sut y cyflawnwyd y canlyniad
Sicrhau bod gan Swyddogion Canlyniadau Lleol y trefniadau angenrheidiol ar waith i gynnal etholiadau wedi'u trefnu'n dda yn eu hardal	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Datblygu a gweithredu prosesau rheoli prosiect cadarn</li> <li>• Datblygu canllawiau a rhoi cyfarwyddiadau lle y bo angen i sicrhau y caiff yr etholiadau eu gweinyddu'n effeithiol yn ardal pob Swyddog Canlyniadau Lleol</li> <li>• Datblygu a gweithredu cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol</li> <li>• Datblygu a gweithredu strategaeth ar gyfer cydgysylltu a darparu gweithgarwch codi ymwybyddiaeth y</li> </ul>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dogfennaeth cynllunio prosiect a adolygir yn rheolaidd</li> <li>• Trefniadau ar gyfer sicrhau y caiff yr etholiad ei gynnal mewn modd cyson, gan gynnwys canllawiau a gyhoeddwyd a ph'un a ydych wedi defnyddio eich pŵer i roi cyfarwyddiadau a sut rydych wedi gwneud hynny</li> <li>• Cynlluniau ar gyfer cyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau Lleol</li> <li>• Strategaeth ar gyfer cydgysylltu a darparu gweithgarwch codi</li> </ul>



	<p>cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Lle y bo'n briodol, datblygu proses ar gyfer derbyn a chyflwyno canlyniadau lleol</li> </ul>	<p>ymwybyddiaeth y cyhoedd ac ymgysylltu ag etholwyr drwy'r ardal gyfan</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Trefniadau ynglŷn â sut rydych yn bwriadu rheoli'r broses o goladu canlyniadau lleol, gan gynnwys unrhyw brotocolau a chanllawiau a roddwyd i Swyddogion Canlyniadau lleol</li> </ul>
--	---	--

<sup>1</sup> Erthygl 2, Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017

<sup>2</sup> Adran 2, Rheoliadau Cynllunio Cymdogaeth (Refferenda) 2012 ("Rheoliadau Cymdogaeth 2012")

<sup>3</sup> Adran 35(1) Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 ("RPA 1983")

<sup>4</sup> Adran 35(3), RPA 1983

<sup>5</sup> Adran 35(1A), RPA 1983

<sup>6</sup> Adran 31(1) ac (1A) RPA 1983

<sup>7</sup> Rheoliad 2 Rheolau Maerol 2007

<sup>8</sup> Erthygl 2 a 5, Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017.

<sup>9</sup> Erthygl 6, Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017.

<sup>10</sup> Rheoliad 9, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynnal Refferenda) (Lloegr) 2012 ("Rheoliadau Refferenda ALI 2012")

<sup>11</sup> Rheoliad 9(1) Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>12</sup> Rheoliad 9(2) Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>13</sup> Rheoliad 9 Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>14</sup> Rheoliad 10(4) Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>15</sup> Erthygl 6(2), Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017.

<sup>16</sup> Erthygl 6(2), Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017.

---

<sup>17</sup> Erthygl 6(3), Gorchymyn Awdurdodau Cyfunol (Etholiadau Maerol) 2017.

<sup>18</sup> Rheolau Etholiad Cyfunol - Atodlen 3 Rheolau Prif Ardaloedd 2006; Atodlen 2 Rheolau Plwyfi a Chymunedau 2006; Atodlen 3 Rheolau Maerol 2007; Atodlen 3 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017; Atodlen 3 Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>19</sup> Rheol 2 Atodlen 3 (cymhwyso erthygl 2) Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017 ac adran 35(2D) RPA 1983 (fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 2 Rheolau Maerol Awdurdodau Cyfunol 2017)

<sup>20</sup> Rheoliad 9 Rheoliadau Cymdogaeth 2012

<sup>21</sup> Rheol 2, Atodlen 5, Rheoliadau Refferenda ALI 2012

<sup>22</sup> Adran 35(4), (63)(1) a (3)(b) RPA 1983

<sup>23</sup> Adran 63(1) a (3)(b), RPA 1983

<sup>24</sup> Adran 63(4), RPA 1983; Adran 46 Deddf Gweinyddu Etholiadau 2006 ("EAA 2006")

<sup>25</sup> Adran 46 EAA 2006

<sup>26</sup> Adran 63(4), RPA 1983

<sup>27</sup> Adran 46(2) EAA 2006

<sup>28</sup> Adran 9A Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ("PPERA 2000")